**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2014**

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL (CYFNOD ADRODD 2013-2014)

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (cyfnod adrodd 2013-2014) i ymateb i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Cefndir

2 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ym mis Hydref 2010. Roedd y Ddeddf yn dod yn lle dyletswyddau cydraddoldeb gwahanol yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, rhywedd ac anabledd a oedd yn Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ymestyn sylw'r Ddyletswydd i nodweddion gwarchodedig eraill, sef oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, ac ailbennu rhywedd.

3 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyffredinol ar gyrff cyhoeddus rhestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

4 Yn Ebrill 2011, defnyddiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei phwerau i gyflwyno dyletswyddau penodol, wedi eu cynllunio i gynorthwyo tryloywder ac i alluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Nodir y rhain yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

5 Mae'r ddyletswydd benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar 31ain Mawrth bob blwyddyn, fan bellaf. Dylai'r wybodaeth ymdrin â'r flwyddyn ariannol lawn sy'n dod i ben 12 mis cyn y dyddiad terfynol ar gyfer adrodd.

6 Rhaid i'r diweddariad gynnwys:

- darpariaethau ar gyfer ymgysylltu a chynnwys grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hawdd;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddiant a choladu gwybodaeth am gyflogaeth;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf ymysg gweithwyr;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau;
- adolygu cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

7 Caiff cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth ei reoleiddio gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rôl y Comisiwn dan y gyfraith yw amddiffyn, gorfodi a hybu cydraddoldeb. Caiff y rôl hon ei chyflawni drwy ddarparu cyfarwyddyd, a gwaith rheoleiddio a gorfodaeth.

## Gwybodaeth

9 Mae'r trydydd Adroddiad Blynyddol hwn, ynglŷn â blwyddyn adrodd 2013-14 yn ceisio bodloni Rheoliad 16 o ddyletswyddau penodol Cymreig, ac fe'i lluniwyd yn unol â thempled cyfarwyddyd adrodd blynyddol Llywodraeth Cymru. Er cysondeb, mae'r adroddiad yn dilyn y dyletswyddau penodol Cymreig ac yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau yn ystod yr amserlen a osodwyd.

10 Yn yr adroddiad, cyflwynir gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan cynnwys data cydraddoldeb a gesglir pan mae gweithiwr yn cael ei recriwtio, ynghyd â data hyfforddiant. Er mwyn sicrhau bod ein data cyfredol am gyflogaeth yn gywir ac yn berthnasol byddwn yn cynnal ymarferiad dilysu data yn ystod 2014/15.

11 Defnyddir data monitro cyflogaeth fel sail i asesiad effaith cydraddoldeb, er enghraifft yn yr asesiadau cychwynnol a llawn ar y Polisi Iechyd a Ffitrwydd a Thrais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Cyflwynwyd pob un o'r asesiadau hyn i Lywodraeth Cymru ar eu cais.

12 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwnaed ymdrechion i gasglu'r wybodaeth berthnasol am gyflogaeth. Mae'r ffocws hwn wedi arwain at ddatblygu system atodol ôl-ddigwyddiadau ar gyfer casglu data cydraddoldeb mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau, yn ogystal â'r data monitro cyfredol.

13 Defnyddiwyd y data hyn fel rhan o brotocol ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru a gynlluniwyd i nodi troseddau casineb. Ar ôl i drosedd gael ei chofnodi fel trosedd gasineb, cynhelir ymyriadau gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Darperir cymorth ychwanegol drwy bartneriaeth gyda Chymorth i Ddioddefwyr, a grëwyd gan waith Cydlynydd y 3ydd Sector.

14 Er mwyn nodi mathau posibl o droseddau, mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cofnodi gweithgareddau dan feini prawf penodol ar gyfer ymyrryd. Er mwyn sicrhau bod staff newydd sy'n Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yn Swyddogion yr Heddlu yn ymwybodol o'r defnydd o losgi bwriadol a chynnau tanau bwriadol mewn troseddau sy'n gysylltiedig â chasineb (a throseddau eraill) mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn cymryd rhan yn eu hyfforddiant. Ystyrir bod yr elfen hon o'u hyfforddiant yn ddatblygiad hanfodol. Er mwyn meithrin gwell perthynas gymunedol â phobl ifanc, rhai ohonynt wedi dangos ymddygiad cynnau tân, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dod ar gyrsiau'r Ffenics fel hyfforddwyr.

15 Defnyddir data diogelwch tân yn y cartref fel sail i weithgareddau diogelwch cymunedol, ac i ddylanwadu arnynt. Gwneir rhagor o waith i groesgyfeirio effaith yr holl nodweddion gwarchodedig i feysydd allweddol gwasanaethau. Sicrheir ansawdd gwaith y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod anghenion y cleient yn cael eu diwallu.

16 Bydd adolygiad o'r sefydliadau sy'n cynnal archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn cael eu darparu'n effeithiol i'r gynulleidfa darged. Bydd methodoleg i sicrhau ansawdd darpariaeth archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael ei hystyried i'w datblygu ar lefel Cymru gyfan.

17 Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhan allweddol o'r ddyletswydd benodol. Wrth ystyried darpariaethau ymgysylltu a chynnwys grwpiau o fewn y nodweddion gwarchodedig, mae'r adroddiad yn nodi bod strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd wedi ei sefydlu i wella cydlyniad a chysondeb wrth ymgysylltu yng Ngogledd Cymru.

18 Mae'n ddyletswydd statudol ar yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â meysydd penodol o wasanaethau. Rhaid i bob awdurdod ymgynghori â chymunedau lleol, defnyddwyr gwasanaethau, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth osod safonau gwasanaeth a thargedau perfformiad, a hynny er mwyn datblygu dull sy'n canolbwyntio fwy ar y dinesydd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

19 Yn 2013, fe wnaethom ni ofyn i fwy o grwpiau nodweddion gwarchodedig nag o'r blaen am adborth ynglŷn â'n gwaith. Mae'r cynnydd hwn yn y nifer o bobl o grwpiau gwarchodedig yr ydym wedi ymgynghori â nhw yn golygu bod yr wybodaeth a gasglwyd yn gallu cael ei rhannu ar draws y Gwasanaeth er mwyn cydlynu amcanion perfformiad ar gyfer y dyfodol.

20 Ar ddechrau 2013 dechreuodd y Gwasanaeth ar rownd newydd o hyfforddiant ar asesu effaith cydraddoldeb a fyddai'n cael ei gynnal dros ddwy flynedd. Wedi ei anelu at uwch reolwyr a rheolwyr canol, nod y cwrs undydd yw cynnwys y dadleuon cyfreithiol a moesol dros gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Mae'r asesiadau effaith yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effaith y mae penderfyniadau, polisïau neu wasanaethau yn ei chael o ran cydraddoldeb ar gymunedau, unigolion neu grwpiau gwahanol, yn enwedig mewn perthynas â'r bobl sydd fwyaf agored i beryglon mewn cymdeithas, a hynny er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol yng Nghymru.

21 Yn yr adroddiad, ceir amlinelliad o'r cynnydd a wneir wrth gyflawni pob un o'n hamcanion cydraddoldeb, ynghyd â datganiadau ar ba mor effeithiol yw trefniadau'r Awdurdod ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth berthnasol.

22 Mae’r Adroddiad Blynyddol atodedig wedi ei fwriadu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ac mae’n rhoi cyfle i fod yn dryloyw i’n partneriaid a’r cyhoedd.

**Argymhellion**

23 Gofynnir i’r Aelodau:

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;
(ii) cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2013-2014 i’w gyhoeddi ar wefan y Gwasanaeth.

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# 2013-2014

## Cyhoeddwyd yn 2014

## Cynnwys


| Mynegai | Rhif Tudalen |
|---|---|
| Y ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gorff Cyhoeddus Adrodd yn Flynyddol | 1 |
| Datganiad Cydraddoldeb gan y Prif Swyddog Tân a Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 2 |
| Gofynion dan y Gyfraith - Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 | 3 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 4 |
| Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub | 5 |
| Casglu Gwybodaeth Berthnasol | 6 |
| Ymgysylltu | 7-10 |
| Asesiadau Effaith Cydraddoldeb | 10 |
| Amcanion a Gwblhawyd ac a Gadarnhawyd | 12 |
| Ein Hamcanion 1 – 11 | 13-24 |
| Data Cyflogaeth - Atodiad 1 | 25-39 |
| Data Cyflwyno Gwasanaethau - Atodiad 2 | 40-43 |

## Y ddyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gorff Cyhoeddus Adrodd yn Flynyddol

Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru lunio adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Dylai'r wybodaeth ymdrin â'r flwyddyn ariannol gyflawn sy'n dod i ben ddeuddeng mis cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad cyntaf, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n fuddiol i'r Awdurdod petai'r adroddiad yn cael ei lunio yn hydref y flwyddyn adrodd oherwydd byddai hyn yn rhoi cyfle i adrannau sydd ag amcanion cydraddoldeb weithredu'r newidiadau ac ymgorffori'r newidiadau hynny yn y broses cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru adrodd bob blwyddyn ynglŷn â'r wybodaeth a ganlyn.

- y camau a gymerodd yr awdurdod i ganfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut y mae'r awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad ynglŷn ag effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer canfod a chasglu gwybodaeth berthnasol
- y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr awdurdod
- datganiad ynglŷn ag effeithiolrwydd y camau a gymerodd yr awdurdod i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a dyrchafiad

## Cyflwyniad a Chefndir

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi dwyn ynghyd dros 116 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth o fewn un Ddeddf. Pan fo modd, bydd yr Awdurdod yn ceisio mynd y tu hwnt i ofynion y gyfraith yn ein gwaith yn annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chydlyniant, a hynny fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn sefydlu Dyletswydd Gyffredinol a Dyletswyddau Penodol Cymreig ar gyfer cyrff cyhoeddus megis Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r gyfraith yn sefydlu mai'r nodweddion gwarchodedig yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw (rhywedd) a gogwydd rhywiol.

Mae manylion ynghylch y modd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bwriadu sicrhau cydymffurfiaeth dan y Ddeddf Cydraddoldeb newydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod, sydd i'w gael yn:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/91758/microsoft_word_final_strategic_equality_plan_cymraeg-cover.pdf

Mae hwn, y trydydd Adroddiad Blynyddol, yn ceisio bodloni Rheoliad 16 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, a bydd yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 2$^{il}$ Ebrill 2013 a 31$^{ain}$ Mawrth 2014.

Mae'r Adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau yn ystod y cyfnod. Er mwyn bod yn gyson, mae'r ddogfen yn dilyn y Dyletswyddau Penodol Gymreig, gyda'r data allweddol angenrheidiol yn yr atodiadau.

Ynghyd â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio tuag at Gynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella. Er mwyn gweld sut rydym yn prif-ffrydio cydraddoldeb yn yr Awdurdod Tân ac Achub, edrychwch ar ein Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella, sydd ar ein gwefan, sef:
http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/236426/microsoft_word_-_2013-14_final_published_ip_-_cym.pdf

## Datganiad Cydraddoldeb

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol 2013-2014 ar ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adroddiad hwn yn gofnod o'r cynnydd a wnaethom tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a hyrwyddo'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Proses barhaus fydd hon.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bobl Gogledd Cymru. Fel cyflogwr, rydym hefyd wedi ymrwymo i gydraddoldeb a rhoi gwerth ar amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Yn gefn i'r ymrwymiad hwn mae ein Gwerthoedd Craidd sydd yn rhan annatod o'n harferion gwaith bob dydd gyda phawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau, ein cydweithwyr a'n partneriaid. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i bawb drwy leihau gwahaniaethu mewn cyflogaeth ac wrth gyflwyno gwasanaethau.

Dyma dri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu a fictimeiddio, drwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu cyd-ddealltwriaeth.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin cyd-berthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at y canlynol:

- Dileu neu leihau'r anfantais a brofir gan bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig.
- Diwallu anghenion pobl sydd â rhai nodweddion gwarchodedig pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, gan gynnwys cymryd camau i gymryd ystyriaeth o anghenion pobl anabl.
- Annog pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill pan ydynt yn cael eu tangynrychioli.

Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyhoeddi yn Ebrill 2012, ac mae'n nodi ein hymrwymiad parhaus i sicrhau tegwch i holl drigolion, aelodau etholedig, aelodau staff ac ymwelwyr â Gogledd Cymru.

| Simon A Smith | Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies |
| --- | --- |
| **Prif Swyddog Tân** | **Cadeirydd – Awdurdod Tân ac Achub** |

## Y Gofynion o dan y Gyfraith

### Deddf Cydraddoldeb 2010

Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus (Ebrill 2011)

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth cydraddoldeb, gan gytgordio a chryfhau'r ddeddfwriaeth cydraddoldeb dan un Ddeddf newydd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, dalu sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- **dileu gwahaniaethu, aflonyddu, fictimeiddio ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf hon neu odani;**

- **hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;**

- **meithrin cydberthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.**

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhestru nifer o nodweddion na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros drin rhai pobl yn waeth nag eraill. Dyma'r 'nodweddion gwarchodedig'.


### Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Hefyd, mae dyletswyddau cydraddoldeb statudol penodol cysylltiedig ar gyfer Cymru (Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011) sy'n galluogi awdurdod cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r rheoliadau penodol yn cynnwys:

- cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb;
- cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- darpariaethau ymgysylltu a chynnwys ar gyfer grwpiau nodweddion gwarchodedig;
- sicrhau bod deunydd cyhoeddedig ar gael yn hawdd;
- asesu effaith polisïau ac arferion perthnasol;
- hyfforddi a chasglu gwybodaeth cyflogaeth;
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg gweithwyr am y Ddeddf Cydraddoldeb;
- mynd i'r afael â gwahaniaethau annheg mewn cyflogau;
- adolygu cynnydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Cydraddoldeb cysylltiedig;
- darpariaethau arferion caffael.

Yn fras, diben y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw cynorthwyo cyrff i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

## Gwybodaeth am Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru




***Map o ardal Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru***

## Yr Awdurdod Tân ac Achub

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn un o dri yng Nghymru. Rôl yr Awdurdod yw:

- cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau priodol, yn enwedig Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006, a Chynllun Cyfuno 1995;

- cytuno ar gynlluniau blynyddol yr Awdurdod, y cyllidebau refeniw a chyfalaf, a chyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol;

- monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf, ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Sefydlwyd yr Awdurdod yn Ebrill 1996, ac mae'n cynnwys 28 o gynghorwyr o'r chwe awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru: Cyngor Sir Ynys Môn (3); Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (5); Cyngor Sir Ddinbych (4); Cyngor Sir y Fflint (6); Cyngor Gwynedd (5); Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (5). Penderfynir ar nifer y cynrychiolwyr o bob awdurdod cyfansoddol ar sail poblogaeth.

## Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth Tân ac Achub

Y Prif Swyddog Tân yw pennaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac ef sydd â rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol am y Gwasanaeth, ac mae'n darparu cyngor proffesiynol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae gwerthoedd craidd y Gwasanaeth yn crynhoi'r egwyddorion yr ydym yn eu dilyn a'r gwerthoedd personol y mae'r staff yn cael eu hannog i'w mabwysiadu a'u harddangos.

Dyma'r gwerthoedd craidd:

### Gwasanaeth i'r gymuned

Rydym ni'n gwerthfawrogi gwasanaeth i'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r holl grwpiau i leihau risg
- Trin pawb yn deg a pharchus
- Bod yn atebol i'r rhai yr ydym yn eu gwasanaethu
- Ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wnawn

### Pobl

Rydym ni'n gwerthfawrogi ein gweithwyr drwy ymarfer a hyrwyddo:

- Tegwch a pharch
- Cydnabyddiaeth i deilyngdod
- Gonestrwydd, cyfanrwydd ac ymddiried yn ein gilydd
- Datblygiad personol
- Cydweithio a gwaith cynhwysol

### Amrywiaeth

Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth yn y Gwasanaeth a'r gymuned drwy wneud y canlynol:

- Trin pawb gyda thegwch a pharch
- Darparu amrywiaeth o ddatrysiadau i anghenion a disgwyliadau gwahanol
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o fewn cyflogaeth drwy ddyrchafu o fewn y Gwasanaeth
- Herio rhagfarn a gwahaniaethu

### Gwella

Rydym ni'n gwerthfawrogi gwelliannau ar bob lefel o'r Gwasanaeth drwy dderbyn cyfrifoldeb am ein perfformiad drwy wneud y canlynol:

- Bod yn feddwl-agored
- Ystyried beirniadaeth yn feddylgar
- Dysgu o'n profiadau
- Ymgynghori ag eraill

## Casglu Gwybodaeth Berthnasol

Rhaid i Awdurdod gasglu gwybodaeth am gyflogaeth y rhai sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. A chyhoeddi'r data hyn erbyn 31ain Mawrth yn y flwyddyn ddilynol.

## Data Cyflogaeth

Mae data monitro ar gyfer proffil amrywiaeth staff wedi ei nodi'n rhan o'r wybodaeth berthnasol y dylid ei chasglu i gefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Gwasanaeth yn casglu'r data cyflogaeth mewn perthynas â phob un o'r nodweddion gwarchodedig ers 2006. Cafodd y data eu diweddaru yn 2010 a chafodd yr wybodaeth ei rhoi yn System Gwybodaeth Rheolaeth AD. Er mwyn sicrhau bod y data'n gyffredinol teimlid bod angen cynnal ymarferiad dilysu data eto a chynhelir hyn yn ystod 2014 - 2015.

Defnyddir data monitro staff mewn gwahanol ffyrdd fel sail i gynnydd ac i lunio camau gweithredu ychwanegol neu newydd fel y bo'r angen. Mae'r data'n hanfodol ar gyfer gweinyddu contractau a thalu cyflogau. Gellir ei ddefnyddio hefyd wrth ystyried addasiadau priodol i drefniadau gwaith, ar y cyd â'r aelod dan sylw o'r staff.

Hefyd, defnyddir data monitro cyflogaeth fel sail i asesiadau effaith cydraddoldeb pan fo'n briodol.

## Gwerthuso Swyddi – Data Cyflog Cyfartal

Mae gan yr Awdurdod gynllun gwerthuso swyddi. Mae gwerthuso swyddi yn sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog swydd benodol. Mae'r broses yn cychwyn gyda swydd-ddisgrifiadau. Caiff y rhain eu cadw'n gyfoes ar gyfer swyddi newydd a swydd diwygiedig. Caiff y swyddi eu gwerthuso a'u cymedroli gan gymharu i. Mae gwerthuso swyddi yn sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog swydd benodol. Mae'r broses yn cychwyn gyda swydd-ddisgrifiadau. Caiff y rhain eu cadw'n gyfoes ar gyfer swyddi newydd a swydd diwygiedig. Caiff y swyddi eu gwerthuso a'u cymedroli gan gymharu â'r swydd-ddisgrifiadau cyfredol ac mae canlyniad y gwerthusiad yn cael eu cysylltu gyda'r system gyflogau a graddio. Mae hyn yn arwain at gyflog cyfartal am waith o'r un gwerth. Proses barhaus yw gwerthuso swyddi. Mae'r Awdurdod, ac y cyd â'r undebau llafur, wedi adolygu a sefydlu system gyflogau a graddio a roddwyd ar waith ar 1af Ebrill 2009. Mae cyflawni hyn yn gymorth inni drin pobl yn deg.

## Data Cyflwyno Gwasanaethau

## Casglu Data Cyflwyno Gwasanaethau

Er bod rhywfaint o wybodaeth am Gyflwyno Gwasanaethau yn cael eu casglu eisoes, canfu dadansoddiad cychwynnol o'r bylchau, a wnaed wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fod angen mynd i'r afael â rhai meysydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gwnaed pob ymdrech i gasglu'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'r ffocws hwn wedi arwain at ddatblygu system atodol ôl-ddigwyddiadau ar gyfer casglu data cydraddoldeb sy'n ymwneud â Chyflwyno Gwasanaeth yn ogystal â'r data monitro cyfredol.

## Sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r Wybodaeth

## Data Troseddau Casineb

Mae gan y Gwasanaeth brotocol ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, gyda'r nod o ganfod troseddau casineb. Ar ôl canfod trosedd casineb, mae ymyriadau'n cael eu sefydlu gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol. Darperir rhagor o wybodaeth hefyd drwy bartneriaeth gyda Chymorth i Ddioddefwyr, a grëwyd gan waith Cydlynydd y Trydydd Sector.

Er mwyn canfod mathau posibl o droseddau mae'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn mynd ati erbyn hyn i gofnodi gweithgareddau dan feini prawf penodol yn ymwneud ag ymyrryd.

Er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth lwyr o'r risg o'r defnydd o losgi bwriadol a chynnau tanau yn fwriadol mewn troseddau'n gysylltiedig â chasineb (a throseddau eraill), mae'r gwaith o hyfforddi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Heddweision yn cael ei wneud gan y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, ac ystyrir bod hyn yn ddatblygiad hanfodol. Er mwyn meithrin gwell gyd-berthnasoedd cymunedol â phobl ifanc, a rhai ohonynt wedi dangos ymddygiad llosgi, mae'r Swyddogion Cymorth yn mynychu fel hyfforddwyr ar gyrsiau'r Ffenics erbyn hyn.

**Data Diogelwch Tân yn y Cartref**

Caiff data eu casglu ar y System Rheoli Cofnodion Tân, a'u defnyddio fel sail i'r gwaith o gynnal gweithgareddau diogelwch cymunedol ac i ddylanwadu ar y gwaith hwnnw. Gwneir gwaith pellach i groesgyfeirio effaith yr holl nodweddion gwarchodedig i feysydd allweddol cyflwyno gwasanaethau.

Caiff sicrwydd ansawdd ei wneud ar waith y sector gwirfoddol er mwyn sicrhau bod anghenion cleientiaid yn cael eu diwallu.

Bydd adolygiad o'r sefydliadau presennol sy'n cynnal Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei gwblhau i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i'r gynulleidfa darged. Bydd methodoleg Sicrwydd Ansawdd Cyflwyno Gwasanaethau (Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref) yn cael ei ystyried ar gyfer ei ddatblygu ar lefel Cymru gyfan.

**Ymgysylltu**

**Y Strategaeth Ymgysylltu**

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn gymorth inni gydlynu ein gwaith ymgysylltu. Bydd hefyd yn gymorth inni wneud ein gweithgareddau ymgysylltu yn gyson drwy'r Gogledd.

Mae ymgynghori yn rhywbeth sy'n cael ei gydnabod yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwella'r modd y cyflwynir gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ac mae'n un o themâu allweddol polisi'r Llywodraeth.

Mae'n un o ddyletswyddau statudol yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ymgynghori â'r cyhoedd ar feysydd penodol o gyflwyno gwasanaethau. Rhaid i bob Awdurdod ymgynghori â'u cymunedau lleol, defnyddwyr gwasanaethau, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth osod safonau gwasanaeth a thargedau perfformiad, a hynny er mwyn datblygu dull sy'n canolbwyntio fwy ar y dinesydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n effeithiol.

Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn un o gydrannau allweddol gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei bod yn hanfodol fod y cymunedau a wasanaetha'n cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy ac yn cael cyfle i helpu i rannu a dylanwadau ar y gwasanaethau a gyflwynwn ynghyd â'r ffordd y cyflwynwn nhw.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn ffordd effeithiol o godi ymwybyddiaeth ac addysgu pobl am faterion sy'n ymwneud â thanau a diogelwch ar y ffyrdd, gan roi cyfle i roi adborth ar anghenion a barn benodol. Mae'r adborth hwn yn rhoi cyfle i ninnau ddefnyddio'r wybodaeth wrth osod ein blaenoriaethau.

Drwy fabwysiadu dull cyffredin, byddwn yn gallu gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ymgynghori'n cael ei wneud yn amserol, effeithiol ac ystyrlon
- Mewnosod egwyddorion ymgysylltu ac ymgynghori cymunedol yng ngwaith yr Awdurdod Tân
- Sefydlu dull cydlynedig a chyson o ymdrin ag ymgysylltu cymunedol
- Sicrhau bod canlyniadau ymgynghoriadau'n cael eu defnyddio i oleuo polisïau sy'n adlewyrchu anghenion cymunedol
- Ymgynghori'n well rhwng staff, rhanddeiliaid a phartneriaid yr Awdurdod Tân ac Achub
- Sicrhau gwell gwerth am arian drwy wella methodoleg a rhannu arferion da o bwys.

**Ymgysylltu diweddar**

Ar ddechrau 2013 fe wnaethom ni benderfynu cynnal ymgynghoriad ar ffurf holiadur mewn digwyddiadau cyhoeddus yr aethom iddynt yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst. Roeddem yn dymuno deall y bobl yr ydym yn ymgysylltu â nhw ac yn dymuno cael gwybodaeth ar gyfer ein presenoldeb mewn digwyddiadau yn y dyfodol megis yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Eisteddfod Gydwladol a Sioeau Sirol.

Fe wnaeth y timau Cynllunio Corfforaethol, Diogelwch Tân a Chydraddoldeb gysegru cryn amser a sylw i benderfynu ar y cwestiynau i'w cynnwys yn yr holiadur, gyda'r nod o ddysgu pa faterion posibl sy'n gwneud pobl dan sylw yn y digwyddiadau yn agored i danau.

Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad a dadansoddi'r canfyddiadau, roeddem yn gallu defnyddio'r wybodaeth mewn ymgyrchoedd wedi eu teilwra a'u targedu i geisio codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch tân, cynyddu lefel perchnogaeth o larymau mwg, a lleihau'r risg o dân.

Bu'r ymgynghoriad yn werthfawr i ddylanwadu ar ein gweithgarwch, ac mae'r Awdurdod yn bwriadu parhau i fonitro cynnydd mewn digwyddiadau yn y blynyddoedd i ddod.

Dyma'r digwyddiadau yr aeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru iddynt yn ystod haf 2013:

| Digwyddiad | Nifer y diwrnodau |
|---|---:|
| Eisteddfod Gydwladol Llangollen | Yno 5 diwrnod |
| Eisteddfod Genedlaethol, Dinbych | Yno 8 diwrnod |
| Sioe Ynys Môn | Yno ddeuddydd ond cadwyd ystadegau ar wahân |
| Sioe Dinbych a Fflint, Dinbych | Digwyddiad undydd |
| Sioe Meirionnydd | Digwyddiad undydd |
| Sioe Cerrigydrudion | Digwyddiad undydd |
| Digwyddiad Cartrefi Conwy | Digwyddiad undydd |

- Roedd yr holiaduron ar gael yn y ddwy iaith, ar ffurf copi papur/copi caled, ac yn ddigidol ar iPad.

- Mater o ddewis oedd llenwi'r holiadur, a gellid peidio ag ateb unrhyw gwestiwn os hynny oedd eu dymuniad.

- Roedd staff a oedd yn mynd i'r digwyddiadau wedi cael gwybod sut i ymgysylltu â'r ymwelwyr a chynnig cymorth wrth lenwi'r holiadur. Roedd staff dwyieithog ar gael i helpu'r ymatebwyr a oedd yn dymuno llenwi eu holiadur yn Gymraeg.

**Beth ddysgon ni am ein cymuned?**

- Llenwyd cyfanswm o 798 o holiaduron, 51% gan ferched ac 13% gan ddynion (gyda tua 34% yn peidio â nodi eu rhyw).

- Roedd y rhan fwyaf yn byw yn ardal gwasanaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru – dim ond 10% o'r rhai a lenwodd yr holiaduron a ddywedodd eu bod yn byw y tu allan i ardal gwasanaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru (55% wedi nodi eu bod yn byw o fewn ardal gwasanaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru a mymryn dros 33% heb ddarparu cod post i nodi ble'r oeddent yn byw).

- Dywedodd 96% o'r rhai a lenwodd yr holiaduron eu bod yn berchen ar larwm mwg, a hwnnw'n gweithio, gyda 47% yn dweud bod eu larwm wedi cael ei osod gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

- Yn ôl y rhai a lenwodd yr holiaduron, roedd y rhan fwyaf wedi dweud eu bod yn byw ar aelwydydd 2-4 person (54%), a'r rhan fwyaf yn berchen ar eu heiddo neu gyda morgais arno (76%), yn bennaf rhwng 35-49 mlwydd oed (42%), a'r rhan fwyaf ohonynt mewn cyflogaeth (56%, o'i gymharu â 4.28% yn ddi-waith a 25% wedi ymddeol), gydag eraill ar yr aelwyd yn bennaf yn bobl dan 16 mlwydd oed ac yn y grwpiau oedran 35-49.

- O blith y rhai a ddarparodd wybodaeth am eu haelwydydd, dywedodd 13% eu bod yn byw ar eu pen eu hunain.

- Cymharol isel oedd nifer y rhai a ddywedodd eu bod yn ysmygwyr (17%) neu'n yfed alcohol (31%).

- Dywedodd mymryn dros 53% bod anabledd gan rai yn byw gyda nhw (dewisodd 27% neu 212 o bobl beidio ag ateb y cwestiwn hwn), gydag 81% o'r rhai a ddarparodd yr wybodaeth amdanynt eu hunain yn dweud nad oedd ganddynt anabledd (dewisodd 39% neu 319 o bobl beidio ag ateb y cwestiwn hwn).

- Roedd 92% o'r rhai a ddarparodd wybodaeth am eu hethnigrwydd wedi eu disgrifio eu hunain fel Gwyn Prydeinig, gyda 252 yn penderfynu peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

- Dywedodd 58% o'r rhai a atebodd y cwestiynau am statws priodasol eu bod yn briod, 25% yn sengl a 6% wedi cael ysgariad, gyda 271 yn penderfynu peidio ag ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd y rhaniad rhwng y rhai a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg yn gymharol gyfartal (53% Saesneg a 47% Cymraeg) – nid oes syndod efallai gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ei chynnwys ymhlith y digwyddiadau yr aethpwyd atynt a llawer o'r digwyddiadau wedi eu cynnal mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth Gymraeg sylweddol.

- Yn ddiddorol, roedd y rhaniad iaith fymryn yn wahanol o ran llenwi'r holiadur ei hun - dewisodd 60% lenwi'r holiaduron yn Saesneg a 40% yn eu llenwi yn Gymraeg.

- Oherwydd fod perchnogaeth ar larymau tân mor uchel ni fyddai'n ystyrlon chwilio am ystadegau am y rhai sy'n fwy agored i dân gan nad oedd ganddynt larymau mwg, hefyd yn yn yfed alcohol ac yn ysmygu, yn oedrannus neu'n byw ar eu pen eu hunain.

- Mae rhai digwyddiadau'n dangos bod mwy o risg i bobl oherwydd cyfuniad o ffactorau megis oedran, byw ar eu pen eu hunain, yfed alcohol ac ysmygu e.e. Sioe Dinbych a Fflint (mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain ac yn yfed ac yn ysmygu).

- O blith y rhai a ddywedodd eu bod yn byw ar eu pen eu hunain (13% neu 75 o ymatebwyr), dim ond 14 ohonynt a ddywedodd eu bod yn wryw a 52 yn fenyw. Nid oedd pob un o'r rhain yn byw yn ardal gwasanaeth Awdurdod Tân Gogledd Cymru.

- Rydym wedi ymgynghori â nifer o drigolion ifanc a hŷn ynghylch prosiectau diweddar. Bu'r rhan fwyaf o'u hadborth yn gadarnhaol.

Yn 2013, fe wnaethom ni ofyn i fwy nag o'r blaen o grwpiau gwarchodedig am adborth ar ein gwaith. Rydym yn falch fod gwelliant yn nifer o bobl o grwpiau gwarchodedig sy'n cael eu cynnwys gennym. Bu'r ymateb yn hynod gadarnhaol, ac roedd pobl yn fwy na bodlon llenwi'r holiaduron.

Erbyn hyn mae'r wybodaeth a gasglwyd yn y digwyddiadau hyn yn cael ei rannu gyda'r Adrannau Diogelwch Tân a Gweithrediadau i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei hystyried wrth gydlynu amcanion perfformiad ar gyfer 2015-2016. Mae'r data a gesglir yn cael eu dadansoddi i sicrhau bod yr adnoddau mwyaf priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer y risg berthnasol mewn gwaith ataliol ac ymatebol, ac yn arbennig sut y gallai rhywun sydd â nodweddion(ion) gwarchodedig fod yn fwy agored i'r risg o dân damweiniol mewn annedd.

**Asesiadau Effaith Cydraddoldeb**

Yn 2011 aeth y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ati i gyd-adolygu eu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Yn dilyn yr adolygiad, ail-lansiwyd y broses gyda Nodiadau Cyfarwyddyd newydd, a'i thanategu gan raglen hyfforddi i'w chyflwyno dros gyfnod o ddwy flynedd. Ar ddechrau 2013, dechreuodd y tri Gwasanaeth ar rownd newydd o hyfforddiant Asesiad Risg Cydraddoldeb a fyddai, unwaith eto, yn digwydd dros gyfnod o ddwy flynedd. Bydd pob Gwasanaeth yn hyfforddi uwch reolwyr a rheolwyr canol ar gwrs undydd; mae cynnwys y cwrs wedi ei gynllunio i gynnwys y dadleuon cyfreithiol a moesol dros Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a bydd yn galluogi rheolwyr i gynnal asesiadau effaith yn hyderus.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb i sicrhau bod adrannau'n ystyried pa effaith, o ran cydraddoldeb, y mae eu penderfyniadau, polisïau neu wasanaethau yn eu cael ar wahanol gymunedau, unigolion neu grwpiau, yn enwedig y rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas, a hynny er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Gyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru).

Cynhelir Asesiad Risg Cydraddoldeb ar benderfyniadau ariannol, gweithdrefnau ac arferion.

Mae'r Awdurdod wedi cwblhau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a ganlyn yn ystod y flwyddyn ariannol hon, a gellir cael copïau ar ein gwefan.

Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol Iechyd a Ffitrwydd (LINK)
Asesiad Effaith Cydraddoldeb Llawn Iechyd a Ffitrwydd (LINK)

Cyfarwyddyd Polisi Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (LINK)

**Sut i gysylltu â ni**

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn hawdd mewn gwahanol ffurfiau. Bydd ffurfiau eraill, megis papur lliw neu sain ar gael os gofynnir amdanynt. Os ydych yn dymuno rhoi adborth neu wneud awgrym, neu os ydych yn dymuno cael copi ar ffurf arall, cysylltwch â:


Post: Ymgynghorydd Cydraddoldeb
Gwasanaeth Tân ac Achub
Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
LLANELWY
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Ffôn: 01745 535266

Ffacs: 01745 535296

E-bost: sue.jones@nwales-fireservice.org.uk

## Amcanion cydraddoldeb – Cwblhawyd a Llofnodwyd

Wrth i amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod Tân gael eu cyflawni, bydd y Prif Swyddog Tân yn llofnodi'r amcanion sydd wedi eu cwblhau. Mae'r amcan canlynol wedi ei gyflawni'n llwyddiannus.

<table>
<tr><td colspan="2">Rheoliad 11 a 12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyflog Cyfartal</td></tr>
<tr><td>Amcan 10</td><td>Mae'r Ddeddf Lleoliaeth a ddaeth i fodolaeth yn Nhachwedd 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau erbyn 31ain o Fawrth 2012 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, gan ddarparu gwybodaeth am y flwyddyn ariannol ganlynol.</td></tr>
<tr><td>Rheswm</td><td>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad polisi cyflogau ymwneud ag agweddau gwahanol ar bolisi taliadau, a rhaid iddo gynnwys y canlynol:<br>• polisi awdurdod lleol ar lefel ac elfennau taliadau i bob prif swyddog;<br>• polisi awdurdod lleol ar daliadau i'w weithwyr sy'n cael y cyflogau isaf (ynghyd â'i ddiffiniad o "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf", a'i resymau dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw);<br>• polisi awdurdod lleol ar y berthynas rhwng y taliadau i'w brif swyddogion a swyddogion eraill;<br>• polisi awdurdod lleol ar agweddau penodol eraill ar daliadau prif swyddogion; talu wrth gael eu recriwtio, codiadau ac ychwanegiadau i'r tâl, defnydd o gyflog yn seiliedig ar berfformiad a bonysau, taliadau ar derfynu swydd, a thryloywder.</td></tr>
<tr><td>Y Canlyniad a Ddisgwylir</td><td>Rhaid i'r datganiad gynnwys:<br>• y diffiniad o'r "gweithwyr sy'n cael y cyflogau isaf" a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i ddiben y datganiad; a<br>• rhesymau'r awdurdod dros fabwysiadu'r diffiniad hwnnw.</td></tr>
<tr><td>Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn</td><td>Y Rheolwr Cyllid fydd yn gyfrifol am ymchwilio ac ysgrifennu'r Datganiad Polisi Cyflogau.</td></tr>
<tr><td>Cwblhau Amcan Cydraddoldeb 10</td><td>Ymchwiliwyd i gynnwys y Datganiad Polisi Cyflogau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion Llywodraethu Corfforaethol, ynghyd â chydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb.<br><br>Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru dan y Ddeddf Lleoliaeth, a ddaeth i rym yn Nhachwedd 2011, i gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau erbyn 31ain Mawrth 2012 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r Gwasanaeth yn symud i gyfeiriad integreiddio'r Datganiad Polisi Cyflogau yn broses flynyddol deg. Bydd y Datganiad Polisi Cyflogau yn cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod Tân bob blwyddyn fel mater o drefn.<br><br>Cafodd y Datganiad Polisi Cyflogau ei adolygu gan ystyried adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cymeradwywyd datganiad 2013/14 gan yr ATA ym Mawrth 2014, a'i ymgorffori yn y Datganiad o Gyfrifon.<br>Bydd y Datganiad Polisi Cyflogau yn parhau i gael ei lunio bob blwyddyn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad Cydraddoldeb<br><br>Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru dan y Ddeddf Lleoliaeth, a ddaeth i rym yn Nhachwedd 2011, i gyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau erbyn 31ain Mawrth 2012 a phob blwyddyn ariannol wedi hynny, sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Erbyn hyn bydd y Gwasanaeth yn llunio Datganiad Polisi Cyflogau. Byddwn yn sicrhau bod y polisi yn deg ac yn gyfartal ar draws y rhywiau a'r nodweddion gwarchodedig eraill.</td></tr>
</table>

## Ein Hamcanion

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 3*** | ***gosod a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 3(2)*** | ***cyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 4*** | ***llunio ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb*** |
| ***Rheoliad 13*** | ***adolygu'r holl drefniadau a wneir dan y Rheoliadau*** |
| ***Rheoliad 14*** | ***ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) erbyn Ebrill 2012*** |
| ***Rheoliad 15*** | ***bydd yr Awdurdod yn llunio ac yn adolygu'r CCS*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob cyfnod adrodd ynglŷn â chasglu data perthnasol*** |

***Gosod Amcanion Cydraddoldeb a llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac adrodd ynglŷn â chynnydd y Cynllun.***

| **Amcan 1** | Gosod a monitro'r Amcanion Cydraddoldeb sydd o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ac adolygu'r Amcanion cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd, ac adrodd ar y cynnydd bob blwyddyn. Cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb sy'n nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni pob Amcan. |
|---|---|
| Rheswm | Mae'r Amcanion Cydraddoldeb sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi eu seilio ar dystiolaeth, a hwnnw wedi ei chael trwy naill ai ymgysylltu neu ymgynghori, yn benodol gyda'r rhai sy'n cynrychioli neu'n rhannu'r naw o nodweddion gwarchodedig. Mae hyn yn un o ofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, wedi ei nodi yn y Dyletswyddau Penodol 2011 (Cymru), ac yn cael ei gefnogi ganddynt. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr Awdurdod yn adrodd ar yr Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cael eu hymgorffori o fewn cynlluniau busnes yr adrannau perthnasol. Bydd yr amcanion yn rhan o'r mecanwaith adrodd busnes, gan adolygu cynnydd bob chwarter. Bydd yr Amcanion yn arwain at sicrhau bod yr Awdurdod yn canolbwyntio ei adnoddau ar bobl fregus yn y gymuned a staff yr Awdurdod, sy'n gynrychioliadol o un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei lunio a'i fonitro gan yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb drwy gynlluniau busnes adrannau rheolwyr unigol. Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn a chyflwynir adroddiad i'r Awdurdod Tân ac Achub. |
| Cynnydd o 1af Ebrill 2013 i 31ain Mawrth 2014 | Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ei gyhoeddi yn Ebrill 2012. Mae'r amcanion cydraddoldeb sydd yn y cynllun cydraddoldeb wedi cael swyddog arweiniol. Bydd y mecanwaith adrodd yn ei gwneud yn haws ymgorffori'r amcanion cydraddoldeb yn y broses cynllunio busnes, gyda diweddariadau monitro chwarterol. Bydd y diweddariad monitro chwarterol yn cael ei fwydo i mewn i Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Tân.<br><br>Wrth i'r Amcanion Cydraddoldeb gael eu cwblhau, byddant yn cael eu llofnodi. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn gosod Amcanion Cydraddoldeb a fydd yn cefnogi ein hamcanion gwella, ac yn eu monitro bob chwarter trwy broses y gyllideb a chynllunio busnes. Byddant yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub bob blwyddyn. Wedi hynny, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gadw dan arolwg blynyddol, ac yn derbyn arolwg llawn cyn diwedd y cyfnod o bedair blynedd.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 4*** | ***sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu*** |
| ***Rheoliad 5*** | ***gofyniad i gydymffurfio â'r Darpariaethau Ymgysylltu*** |

***Trefniadau Ymgysylltu a Chynnwys***

| | |
|---|---|
| **Amcan 2** | Datblygu Strategaeth Ymgynghori sy'n cynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r cyhoedd a staff yr Awdurdod sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ac y mae ein polisïau a'n gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn effeithio arnynt. Bydd y Strategaeth yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau sy'n dod dan un neu ragor o'r naw o nodweddion gwarchodedig. |
| Rheswm | Mae'r Dyletswyddau Penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys pobl y mae penderfyniadau, polisïau a'r gweithdrefnau'r Awdurdod yn effeithio arnynt, ac ymgynghori â hwy. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Dylai'r gwaith o ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu dilynol gael ei oleuo gan ymgynghori a chynnwys rhanddeiliaid, aelodau o'r staff ac aelodau o'r cyhoedd sy'n dod dan un neu ragor o'r naw nodwedd warchodedig. Bydd ymgynghori a chynnwys yn arwain at amcanion realistig sy'n cael eu goleuo gan aelodau o'r cyhoedd a'r staff. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol fydd yn gyfrifol am ysgrifennu'r strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, ac am sefydlu grŵp o gyfeillion beirniadol/fforwm ymgynghori. Bydd hefyd yn ofynnol i'r swyddog arweiniol ymchwilio i ffyrdd o ddefnyddio cyswllt cyfredol â' cyhoedd i ymgysylltu ac ymgynghori. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2012 a 31ain Mawrth 2013 | Cafodd strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori ei llunio a chymeradwyo gan Grŵp Gweithredol y Gwasanaeth. Ers hynny mae'r strategaeth wedi ei rhannu gyda'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yn y Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan, ac wedi ei gytuno'n ffurfiol ar draws Cymru fel Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer Cymru gyfan. Diben y Memorandwm yw sicrhau y bydd y tri gwasanaeth tân ac achub yn mabwysiadu dull cydweithredol o ymdrin ag ymgysylltu ac ymgynghori gyda'r cyhoedd yng Nghymru.<br><br>Nod y ddogfen yw darparu cyfarwyddyd a chysondeb wrth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar draws y tri gwasanaeth tân ac achubg yng Nghymru. Cytunwyd arni gan Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan, a rhoddwyd cymeradwyaeth ar lefel uchel ymhob gwasanaeth tân ac achub (Y Grŵp Gweithredol yn GTAGC). Bydd penderfynu sut i weithredu'r dull cyffredin o ymdrin â'r ddogfen yn rhan o flaen-raglen waith Grŵp Cyfathrebu Cymru gyfan, a bydd y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yn adrodd yn ôl ynghylch cynnydd i GTAGC.<br><br>Bydd pob gwasanaeth tân ac achub yn cadw strategaethau mwy manwl ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu ar lefel fwy unigol. Bydd hyn yn golygu bod modd mynd i'r afael â materion a chymunedau lleol. Mae strategaeth o'r fath ar gyfer GTAGC wedi ei datblygu i ddiben ymgynghoriad cyhoeddus ar Amcanion Gwella'r Gwasanaeth, a fydd yn digwydd yn hydref 2014. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn sefydlu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu, bydd y strategaeth hon yn edrych ar y ffordd yr ydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar hyn o bryd, ac yn edrych ar ffyrdd o wella'r broses, a defnyddio'r ffyrdd cyfredol o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig oedolion a phlant bregus.  Bydd y strategaeth yn ystyried defnyddio grwpiau cyfeillion beirniadol neu bartneriaeth ymgynghori.*

| | |
|---|---|
| ***Rheoliad 5*** | ***darpariaethau ymgysylltu*** |
| ***Rheoliad 7*** | ***casglu gwybodaeth i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol*** |
| ***Rheoliad 16*** | ***cyhoeddi adroddiad ymhob blwyddyn adrodd ar gasglu data perthnasol*** |

***Casglu Data'r Awdurdod***

| **Amcan 3** | Dadansoddi sut y mae'r Awdurdod yn casglu data am Gyflwyno Gwasanaethau, a sut y cânt eu defnyddio i oleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau yn y dyfodol, a gwella. Canfod ffyrdd i ddal y data coll perthnasol, a datblygu proses ar gyfer casglu'r data. |
|---|---|
| Rheswm | • Cymryd rhan mewn proses o welliant parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Sicrhau ein bod yn casglu'r data angenrheidiol a pherthnasol, a bod y data'n cyfateb i un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bod y data a gasglwn yn cael eu mesur, a'u bod yn berthnasol ac yn goleuo'r modd y byddwn yn Cyflwyno Gwasanaethau i rannau bregus o'r gymuned yn y dyfodol. |
| Pwy fydd yn cyflawni'r amcan hwn | Yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân a'r Uwch Reolwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am ddal y data perthnasol ynglŷn â Chyflwyno Gwasanaethau. |
| Cynnydd rhwng 1af Ebrill 2013 a 31ain Mawrth 2014 | Mae'r Gwasanaeth wedi canfod ei fod yn casglu data ar hyn o bryd mewn digwyddiadau gweithredol ynglŷn ag Oedran, Rhywedd, Ethnigrwydd ac Anabledd. Caiff yr wybodaeth ei storio mewn dwy system wahanol:<br><br>• Y System Cofnodi Digwyddiadau;<br>• Y System Rheoli Cofnodion.<br><br>Cydnabuwyd nad oes gan y Gwasanaeth broses ar gyfer casglu a storio gwybodaeth am y nodweddion gwarchodedig a ganlyn:<br>• Beichiogrwydd a Mamolaeth;<br>• Aibennu rhywedd;<br>• Crefydd neu gred; a<br>• Cyfeiriadedd rhywiol.<br><br>Rydym wrthi'n datblygu system i gasglu'r wybodaeth hon drwy holiadur. Y cynnig yw gadael yr holiadur gydag aelodau'r gymuned yn dilyn digwyddiad, neu pan nad oes modd gwneud hyn, ei anfon yn uniongyrchol i'w cyfeiriadau cartref. Datblygir mecanwaith ar gyfer cofnodi'r ymatebion a ddaw i law, a'r rhai sydd heb eu dychwelyd. Mae gan y Gwasanaeth ddau ddull electronig o gofnodi gwybodaeth am Gyflenwi Gwasanaethau.<br><br>Erbyn hyn, mae'r System Rheoli Cofnodion yn nodi gwybodaeth am anabledd mewn chwe ardal, ynghyd â gwybodaeth am breswylwyr a chartrefi mewn perthynas â materion bregus eraill.<br><br>Caiff y data a gesglir eu dadansoddi i sicrhau bod yr adnoddau mwyaf priodol yn cael eu defnyddio ar gyfer y risg perthnasol mewn gwaith ataliol ac ymatebol, ac yn arbennig sut y gall rhywun sydd â nodwedd(ion) (g)warchodedig fod yn fwy agored i'r risg o dân damweiniol mewn annedd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Gwasanaeth wrthi'n ystyried dulliau ar gyfer casglu a storio rhagor o wybodaeth am y nodweddion gwarchodedig a ganlyn:<br>• Beichiogrwydd a Mamolaeth;<br>• Ailbennu rhywedd;<br>• Crefydd neu gred; a<br>• Cyfeiriadedd rhywiol<br><br>Mae data digwyddiadau'n dangos nad yw'r unigolion hyn, oherwydd y nodwedd, mewn mwy o berygl na phobl eraill.<br><br>Rydym wrthi'n datblygu system ar gyfer casglu'r wybodaeth hon drwy holiadur. Y cynnig yw gadael yr holiadur gydag aelodau'r cyhoedd yn dilyn digwyddiad, neu pan nad oes modd gwneud hyn, ei anfon yn uniongyrchol i'w cyfeiriad cartref. Datblygir mecanwaith ar gyfer cofnodi'r ymatebion a'r rhai nad ydynt yn ymateb. |

*Datganiad Cydraddoldeb*

*Bydd yr Awdurdod yn dadansoddi'r data am Gyflwyno Gwasanaethau yr ydym yn eu casglu ar hyn o bryd, ac yn sicrhau ein bod yn casglu'r data hyn, lle bo modd, yn ôl un neu ragor o nodweddion gwarchodedig. Bydd y data a gasglwn yn gymorth i oleuo ac arwain ein ffordd o ddarparu gwasanaethau i bobl fregus yn y dyfodol.*

***Rheoliad 5*** ***darpariaethau ymgysylltu***
***Rheoliad 7*** ***casglu gwybodaeth yn unol â'r Ddyletswydd Gyffredinol.***

***Sicrhau Ansawdd y Ffordd Sefydledig o Ymgysylltu â Chymunedau***

| **Amcan 4** | Sicrhau bod yr Awdurdod yn craffu ar y modd yr ymgysylltir ar hyn o bryd ag aelodau o'r cyhoedd, a bod y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei sicrhau o ran ansawdd, ac yn berthnasol i'r gynulleidfa darged. |
|---|---|
| Rheswm | Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnwys ac ymgynghori â'r bobl y mae'r Awdurdod yn ystyried eu bod yn cynrychioli un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. |
| Y Canlyniad a Ddisgwylir | Bydd yr adborth a geir wrth ymgysylltu yn goleuo Amcanion Cydraddoldeb yn y dyfodol, ac yn gymorth i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod. |
